LANEq230

# Paratoi ceffylau i gael eu marchogaeth gan farchogion â gofynion arbennig

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â phoaratoi ceffylau i gael eu marchogaeth gan farchogion â gofynion arbennig.

Bydd angen i chi wirio cofnodion marchogion, paratoi ceffyl iddynt ei farchogaeth a sicrhau bod marchogion wedi eu gwisgo yn gywir ac yn ddiogel.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am y cyfrifoldebau a'r dulliau o weithio

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. gwirio gofynion y marchog a pharatoi unrhyw offer sydd ei angen i fodloni anghenion y marchog
4. paratoi ceffylau penodol i gael eu marchogaeth, yn unol â'r cyfarwyddiadau
5. addasu harneisiau i gyd-fynd â marchogion unigol, yn unol â'r cyfarwyddiadau
6. hysbysu arweinydd y grwp yn brydlon ynghylch unrhyw sefyllfaoedd peryglus
7. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. sut y mae gofynion arbennig y marchog yn effeithio ar ei farchogaeth ef neu hi
4. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws a sut y dylid ymdrin â nhw
5. sut i baratoi ceffyl addas i gael ei farchogaeth yn unol â gofynion arbennig y marchog
6. pwysigrwydd gwirio a chynnal cofnodion y marchog
7. y peryglon i geffylau, i chi ac i eraill a sut y gellir lleihau'r rhain
8. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Paratoi dau geffyl gwahanol ar gyfer marchogion â gofynion arbennig.

LANEq230

Paratoi ceffylau i gael eu marchogaeth gan farchogion â gofynion arbennig

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq230 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; marchogaeth; trefniadau arbennig; anabl |